Bydd etholwr yn rhoi cerdyn pleidleisio i chi heb enw na chyfeiriad arno? t 32
Anfonir cardiau pleidleisio fel hyn i etholwyr a gofrestrwyd yn ddienw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer cyflwyno papurau pleidleisio i etholwyr dienw.

Bydd etholwr am ddychwelyd ei bleidlais drwy'r post i'r orsaf bleidleisio? t 16; 26
Gwiriwch fod y bleidlais drwy'r post ar gyfer yr ardal gyfrif leol. Os nad ydyw, neu os ydych yn ansicr, cyfeiriwch y pleidleisiwr at swyddfa'r etholiad. Os ydyw, rhowch y bleidlais yn y cynhwysydd a ddarparwyd.

Bydd person yn gofyn i gael pleidleisio ar ran rhywun sydd wedi dioddef sefyllfa feddygol frys? t 28
Cyflwynwch bapur pleidleisio dim ond os ydynt wedi cael eu penodi'n swyddogol fel dirprwy brys. Os nad ydynt, eglurwch y gellir penodi dirprwyon brys hyd at 5pm, a chyfeiriwch hwy at y Swyddog Cofrestru Etholiadol am fwy o fanylion am y broses hon.

Byddwch chi, neu rywun arall, yn amau nad yw'r person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio y person y maent yn honni yr ydynt? t 30–31
Cyn – a dim ond cyn – cyflwyno papur pleidleisio, gall y Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau a ragnodwyd. Mae hawl gan asiantau fynnu bod Swyddogion Llywyddu yn gofyn y cwestiynau hyn. Os cânt eu hateb yn foddhaol, rhaid cyflwyno papur pleidleisio. Ni ellir gwneud mwy o ymholiadau ynghylch hawl person i dderbyn papur pleidleisio.

Bydd aflonyddu difrifol (e.e. tân, llif, etc)? t 39
Peidiwch â pheryglu diogelwch unrhyw un. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, sefydlwch orsaf bleidleisio newydd gerllaw. Rhowch wybod i swyddfa'r etholiad.

Manylion cyswllt

Os ydych yn ansicr am unrhyw rai o'r gweithdrefnau a ddisgrifiwyd yn y llawlyfr, neu os bydd angen i chi gysylltu â swyddfa'r etholiad am unrhyw reswm arall, cysylltwch â:

Rhif Archeb: EPEGB09G003W

Cefnogi etholiad
Senedd Ewrop ym
Mhrydain Fawr

Y Comisiwn Etholiadol

Canllaw cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio

4 Mehefin 2009

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â *Llawlyfr i staff gorsafoedd pleidleisio* y Comisiwn. Mae cyfeiriadau at dudalennau yn y canllaw hwn yn dangos lle ceir gwybodaeth fanylach yn y llawlyfr.

Pwy all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? t 14

Mae llythrennau ger cofnod etholwr ar y gofrestr yn pennu a oes hawl ganddynt ai peidio i bleidleisio yn yr etholiad. Dim ond i'r etholwyr canlynol y dylid rhoi papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dim llythrennau	Etholwyr cyffredin
Dyddiad ar neu cyn 4 Mehefin 2009	Etholwyr fydd yn dod yn 18 oed ar neu cyn 4 Mehefin 2009
Dim llythrennau + **N**	Etholwyr a gofrestrwyd yn ddienw
L neu **L**+**N**	Arglwyddi'r deyrnas
E neu **E**+**N**	Arglwyddi tramor
F neu **F**+**N**	Etholwyr tramor
K neu **K**+**N**	Dinasyddion aelod wladwriaethau'r UE wnaeth gais i bleidleisio yn y DU

Pwy na all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? t 14

Ni ddylid rhoi papur pleidleisio i'r etholwyr canlynol yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dyddiad ar ôl 4 Mehefin 2009	Etholwyr na fyddant yn 18 oed tan ar ôl 4 Mehefin 2009
A neu **A**+**N**	Pleidleiswyr drwy'r post
G neu **G**+**N**	Dinasyddion aelod wladwriaethau'r UE na wnaethant gais i bleidleisio yn y DU

Beth yw'r broses bleidleisio arferol? t 12–16

Cam 1 – Gwirio'r pleidleisiwr	Rhowch groeso i'r etholwr a gofynnwch iddynt gadarnhau eu henw a'u cyfeiriad.
	Cadarnhewch eu bod yn gymwys i bleidleisio drwy wirio eu cofnod ar y gofrestr.
	Tynnwch linell yn erbyn (ond nid trwy) cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.
	Darllenwch eu henw, rhif etholwr a chyfeirnod y dosbarth pleidleisio yn uchel o'r gofrestr etholwyr.
Cam 2 – Cyflwyno'r papur pleidleisio	Ysgrifennwch y rhif etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol (CNL) ger y rhif papur pleidleisio perthnasol.
	Sicrhewch fod y papur pleidleisio sydd i'w gyflwyno yn dwyn y marc swyddogol.
	Plygwch y papur pleidleisio a'i roi i'r pleidleisiwr.
Cam 3 – Pleidleisio	Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
	Gofynnwch i'r pleidleisiwr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio cyn iddynt ei osod yn y blwch pleidleisio.

Beth os...

Mae'n 7am ac nid yw deilydd yr allwedd wedi cyrraedd? t 6
Ceisiwch gysylltu â deilydd yr allwedd. Os bydd angen, gwnewch drefniadau eraill, e.e. sefydlwch orsaf bleidleisio dros dro yng nghefn car. Rhowch wybod i swyddfa'r etholiad.

Bydd etholwr yn difetha eu papur pleidleisio? t 15
Canslwch y papur pleidleisio sydd wedi'i ddifetha. Gosodwch ef yn yr amlen briodol, ysgrifennwch canslwyd ar y CNL a rhowch bapur pleidleisio arall i'r etholwr.

Na all etholwr gael mynediad i'r orsaf bleidleisio? t 21
Ewch â'r papur pleidleisio y tu allan i'r etholwr ar ôl rhoi gwybod i unrhyw asiantau sy'n bresennol. Sicrhewch fod y bleidlais yn gyfrinachol bob amser.

Bydd angen cymorth ar etholwr anabl? t 21–23
Cynigiwch gymorth. Eglurwch pa gefnogaeth sydd ar gael.

Bydd y person sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn ymddangos ar y gofrestr fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio? t 31; 37
Gwiriwch a oeddent wedi penodi dirprwy. Os na, dilynwch y broses papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau'n cael eu hateb yn foddhaol.

Bydd etholwr â marc 'A' ar y gofrestr yn dweud nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post? t 26–27; 37
Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio arferol. Os ydynt wedi derbyn eu pleidlais drwy'r post, anogwch hwy i'w ddychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol erbyn 10pm. Os nad ydynt, neu os nad ydynt yn dymuno ei ddychwelyd dilynwch y weithdrefn papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau'n cael eu hateb yn foddhaol.

Bydd etholwr yn honni ei fod wedi colli neu heb dderbyn ei bleidlais drwy'r post? t 30; 37
Cyn 5pm: cyfeiriwch hwy at y Swyddog Canlyniadau Lleol i gael un newydd. Ar ôl 5pm: dilynwch y weithdrefn papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau'n cael eu hateb yn foddhaol.

Bydd pleidleisiwr yn gofyn sut y caiff ASEau eu hethol? t 46–47
Gall pleidleisiwyr fwrw un bleidlais gan ddefnyddio 'X' naill ai ar gyfer rhestr plaid neu ymgeisydd unigol. Etholir ASEau gan ddefnyddio ffurf ar gynrychiolaeth gyfrannol, gyda fformwla fathemategol yn cael ei defnyddio i ddyrannu seddau.

Nad yw person ar y gofrestr neu unrhyw rai o'r hysbysiadau? t 24
Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio. Cyfeiriwch y pleidleisiwr at y swyddfa cofrestru etholiadol os ydynt yn mynnu eu bod wedi cofrestru.